OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 3101 (Cy.275)

# AER GLÅN, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Rhagfyr 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Rhagfyr 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, a hwythau wedi eu bodloni y gall y dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwydd nad yw'r danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

(**1**) 1993 p.11.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac fe'u trosglwyddwyd wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ac Atodlen 11 iddi.